
trefriw
outdoors | awyr agored

# Trail Trywydd 3




**TRO TREFRIW 3** - O'r maes parcio cerddwch i gyfeiriad y ffordd fawr ac at y Gofeb Rhyfel. Mae llwybr yn mynd o'r Gofeb, heibio cefn y toiledau ar hyd ochr y nant (y Crafnant). Cerddwch at, wedyn croeswch, y bont droed dros y nant, ac yna trowch i'r dde ar hyd y clawdd atal llifogydd.

*Cwblhawyd y clawdd yn 2010 ar gost o £7 miliwn. Diben y clawdd ydi rheoli dŵr llifogydd y Conwy fel eu bod yn achosi llai o ddifrod i'r dyffryn. Mae'r clawdd yn caniatáu boddi rhannau penodol o'r dyffryn sydd wedyn yn gwagio'n araf.*

Cyn hir byddwch chi'n cerdded heibio i gymer y Crafnant a'r Conwy, ac ychydig ar ôl hynny mae'r llwybr yn troi'n ôl at ganol y pentref.

*Yma mae Cei Trefriw, a adeiladwyd i gludo llechi a mwynau, ond wedyn o 1847 i'r 1950au bu cychod yn dod ag ymwelwyr yma o Gonwy. Enw gwreiddiol y gwesty cyferbyn â'r Cei oedd y 'Belle Vue'. Bu gan y gwesty ran fawr yn y proses o newid defnydd y cei o ddefnydd diwydiannol i ddefnydd twristaidd. Yn 1968 fe newidiwyd enw'r gwesty i'r 'Princes Arms Hotel', cyfeiriad at Llywelyn Fawr oedd â thŷ yn Nhrefriw yn ystod ei deyrnasiad yn y 13eg ganrif.*

Ewch yn eich blaen ar hyd y Cob ac yna'n ôl at y bont a'r maes parcio.

Pellter: 1.5km / 1 mi.

